

City & Guilds Diploma mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Lefel 1



Yn gwyno

Yn y cwrs Lefel 1 hwn, ceir dealltwriaeth sylfaenol o'r diwydiant modurol. Mae'n berffaith ar gyfer dysgwyr sydd eisiau gweithio ym maes gwasanaethu, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau a cherbydau ysgafn.

Os caiff ei gwblhau'n llwyddiannus, gall arwain at gwrs Diploma Estynedig mewn Peirianeg Cerbydau Modur, Rhaglen Peirianeg Uwch neu gwblhau prentisiaeth yn y diwydiant, ar ôl gorffen astudiaeth bellach.

Dyma'r cwrs i chi os...

...Mae gennych ddiddordeb mawr mewn Peirianeg Foduro.

...Hoffech weithio yn y sector Cerbydau Modur.

...Hoffech weithio mewn garej neu ddelwriaeth.

...Rydych yn mwynhau datrys problemau.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs yn cynnwys cyfuniad o elfennau ymarferol a damcaniaethol.

Byddwch yn dysgu drwy gwblhau prosiectau ac aseiniadau sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd realistig a wynebwr mewn gweithle. Byddwch yn astudio unedau, gan gynnwys:

Byd Peirianeg Cerbydau Modur
Egwyddorion Cerbydau Trydan
Archwilio systemau cerbydau
Iechyd a Diogelwch Peirianeg Cerbydau Modur
Peirianeg Cynnal a Chadw
Deunyddiau Peirianeg
Dylunio ac Adeiladu Cylched Drydanol
Dehongli a Defnyddio Gwybodaeth am Wasanaeth
Mathemateg a Gwyddoniaeth ar gyfer Peirianeg
Gwyddoniaeth Drydanol a Mecanyddol ar gyfer Peirianeg

Cewch eich asesu drwy:

Arholiadau
Gwaith cwrs
Aseiniadau
Portffolio
Asesiadau ymarferol neu mewn labordy

Wedi cwblhau'r cwrs, byddwch wedi cwblhau:

Diploma Cyntaf Lefel 1 mewn Peirianeg Cerbydau Modur
Paratoi ar gyfer Cyflogaeth (gweler gwefan Coleg Gwent am fanylion)
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau.
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg (Uwchsgilio Mathemateg a Saesneg i radd C neu uwch, fydd yn cael ei ymgorffori yn yr amserlen addysgu)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Cwblhau cwrs Lefel Mynediad 3 yn llwyddiannus, neu ddyfarniad Lefel 1 drwy raglen Cerbydau Modur neu Beirianeg.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

4 TGAU - 2 TGAU gradd D (Mathemateg a Saesneg yn ddelfrydol) ac o leiaf 2 TGAU gradd D-G.

Bydd angen i chi fod yn:

rhifog a chreadigol a gyda diddordeb amlwg mewn Peirianeg Foduro

gallu cymell eich hun, yn gweithio'n galed, yn brydlon ac ymroddedig

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Lefel 2 mewn Peirianeg Cerbydau Modur.

Diploma Lefel 2 mewn Gosod Cerbydau Cyflym

Symud ymlaen at brentisiaeth neu gyflogaeth addas.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol:

hunanreolaeth, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth busnes ac ymwybyddiaeth cwsmeriaid, datrys problemau, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd sylfaenol ac agwedd gadarnhaol at waith

Byddwch angen eich offer ysgrifennu eich hunan, h.y. ffolderi, cloriau i rannu pynciau, beiros, pensiliau, pren mesur a Chyfarpar Diogelu Personol (esgidiau trwm ac oferôls)

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

